

## GRUFFUDD GRYG, bardd o Fôn yn ail hanner y 14eg ganrif.

**Enw:** Gruffudd Gryg  
**Priod:** Goleuddydd  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** bardd  
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth  
**Awdur:** Ifor Williams

Cesglir hyn oddi wrth ei gywydd i saith mab lorwerth ap Gruffudd o Liwon ym Môn, gw r a oedd yn eu blodau yn ôl pob tebyg tua 1360-70. Dywed ei fod yn gân iddynt, a chyfarch hwy fel ei geraint; gan hynny rhaid ei fod yn rhywfath o berthynas i lwyth Hwfa ap Cynddelw (gweler [J. E. Griffith](#), *Pedigrees*, 5). Canodd hefyd i Einion ap Gruffudd, Chwilog, Eifionydd; cyfeiria at ei radd, 'ar waith ystad,' a'i golerwisg o arian, a'i fod uwch ben eraill yng Ngwynedd. Yn ôl [Breese](#) (*Kalendars of Gwynedd*, 49) apwyntiwyd ef yn siryf Caernarfon yn 1351, a bu yn y swydd hyd 1359. Teg amseru'r cywydd yn y cyfnod hwn, neu'n fuan wedi. Os Gruffudd Gryg biau'r farwnad i Rys ap Tudur ' cun (h.y. pennaeth) Môn ' a urddaswyd gan Risiart frenin, ac a benodwyd yn ' Geidwad Ceirw Eryri,' rhaid credu iddo fyw hyd ddechrau'r ganrif nesaf, canys bu Rhys farw yn Arddreiniog yn 1412, medd Rowlands (*Archæologia Cambrensis*, iv, 267). Cyn derbyn hynny hoffem gael tystiolaeth bellach ar y ddau bwynt - awduriaeth y cywydd a blwyddyn marw Rhys.

Wrth ddychwelyd o bererindod i Sain Siâm, Sbaen, bu agos i long Gruffudd gael ei thaflu i'r lan 'yn nhir Harri,' ei elyn. Onid Lloegr, dan Harri IV, ac felly rywdro rhwng 1399 a 1413 ? Pa ben i'r cyfnod?

Sicr yw i Ruffudd gyfoesi mewn rhan â [Dafydd ap Gwilym](#), canys bu ymryson enwog rhwng y ddau. Rhoed gynt amcan am dymor canu [Dafydd](#) fel 1340-80, a phe tybid i Ruffudd oedi canu i Einion hyd 1360, a dal ymlaen hyd 1412, rhoddai hynny 1360-80 fel amcan am gyswllt posibl y ddeufardd, a thros hanner canrif o brydyddu i Ruffudd ! Mae hyn yn gyfnod go hir; dyna pam y petrusir yngl n â marwnad Rhys ap Tudur.

Troer at yr ymryson â [Dafydd ap Gwilym](#) am nodau amseryddol. Yn gyntaf oll, rhaid pwysleisio mai cellwair yw'r dilorni a phardduo. Pentyrra'r beirdd gabl ffaidd ar famau ei gilydd, gan ddychanu mewn iaith gyfoethog o eirfa'r cwterydd. Yn lle moli yn null penceirddiaid, y gamp yw dangos eu medr fel bawgeiniaid. Ymunwyd yn yr 'hwyl' gan [Iolo Goch](#), [Ithel Ddu](#), [Tudur Goch](#), ac eraill; gweler [Ashton](#), *Gweithiau Iolo Goch*, 404-20, am sampl deilwng o groesanaeth y cyfnod. Celwydd hollol, fodd bynnag, yw'r goganu, ac ofer chwilio am wir hanes yn y cyfryw domen. Nid ' Mallt y Cwd ' ' Hersdin Hogl ' oedd mam Gruffudd, ac nid ' Gwyddelyn ' oedd yntau, na mab Gwyddeles. Odid nad oedd [Ddafydd](#) ei hun (*D.G.* 127, 49-54) wedi gweld fod ei blaid ef wedi mynd yn rhy bell, ac meddai, 'Tudur Goch, taw di â'r gerdd ... Gad rhof fi â'r g r.' Yna canodd farwnad i Ruffudd sy'n orlawn o fawl di-fesur i 'Eos gw r Môn.' Etyb yntau'n ôl gyda marwnad odidog i 'Baun Dyfed.' Dewisach ganddo ddychan o ben [Dafydd](#) na gloyw glod gan brydydd arall. 'Disgybl wyf ef a'm dysgawdd / Dysgawdr cywydd huawdr hawdd.' 'Ar y gwir y bu ... A minnau ar y gau.' A thrwy esgus marwnadu fel hyn i'w gilydd, rhydd y ddau brifardd daw ar yr holl helynt mewn dull mawrfrydig a weddai i'w gradd. Yn anffodus, golyga hyn nad oes bellach sail inni i ddal mai yn Llanfaes y claddwyd Gruffudd, gan mai ffug yw'r farwnad a ddywed hynny. Ond cawn beth mwy, sef cydnabod gan Ruffudd mai [Dafydd](#) oedd ei athro ym myd y cywydd. Yn sicr yn ei gywyddau dyfalu i'r Don, ac i Leuad Ebrill, mae'n llawn cystal â'i athro, onid gwell. Geilw [Dafydd](#) ef yn was, h.y. bachgen (*D.G.* 123), ac ef ei hun yn 'dad' ('Dyrnawd ... yn rhad gan ei dad nid a') cyn i'r ymryson chwerwi yn ffræ. Yn wir, dyna'r argraff a erys o hyd - bardd ifanc yn herio bardd h n. Bu Gruffudd fyw i ganu i'r ywen uwch ben bedd [Dafydd](#) yn Ystrad Fflur.

Ei gyfnod felly yw ychydig diweddarach na [Dafydd ap Gwilym](#); efallai hyd ddechrau'r 15fed ganrif. Ganed ef ger llys ei gariad Goleuddydd; llys faen ydoedd, meddai, ond ni ddywed ym mhle. Deil fod ganddo saith o gymdeithion i'w groesawu yn Aberffraw am bob un i [Dafydd ap Gwilym](#) (*D.G.G.*, 137-8; *D.G.* 126), ond ni eilw'r lle'n gartref iddo.

### Awdur

Syr Ifor Williams, (1881 - 1965)

### Ffynonellau

Ifor Williams, Thomas Roberts (goln), *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr*, xciii-xcv, 133-58

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Gruffudd Gryg](#)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q5611974](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

